Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL
111/2025
DYDDIAD CYHOEDDI:
19/11/2025

# Adroddiad Mapio Cysyniadau Grŵp

## Gweithredu'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-571-8

Awdur(on):  Sarah Wallace a Carolyn Wallace

Wallace, S. and Wallace, C. (2025) *Adroddiad Mapio Cysyniadau Grŵp: Gweithredu:* Caerdydd, Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR 111/2025.> Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/gweithredur-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-hydref-2024-i-fai-2025

**Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol**

Tîm yr astudiaeth:

Mark Llewellyn, Fiona Verity, Heledd Bebb, Nia Bryer, Deborah Fitzsimmons, Tony Garthwaite, Mary Lynch, Llinos Haf Spencer, Sion Tetlow, Carolyn Wallace, a Sarah Wallace.

Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru; Prifysgol Brunel Llundain; Prifysgol Abertawe, Ymchwil OB3, a Choleg Brenhinol y Llawfeddygon yn Iwerddon

Prif Arweinydd yr Astudiaeth:

**Yr Athro Mark Llewellyn**[1]

Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, ac Athro Polisi Iechyd a Gofal

Prifysgol De Cymru

mark.llewellyn@southwales.ac.uk

Mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn yn eiddo i'r ymchwilwyr ac ni chânt eu coleddu o angenrheidrwydd gan Lywodraeth Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Yr Is-adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ:
Ymchwil.IechydAGwasanaethauCymdeithasol@llyw.cymru

[1] Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru: Mark Llewellyn — Prifysgol De Cymru

## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad a Dull ....... 7
   Mapio Cysyniadau Grŵp ....... 7
   Casglu Data a Recriwtio Cyfranogwyr ....... 8
   Dadansoddi Data ....... 9

2. Canfyddiadau ....... 11
   Gweithgaredd didoli ....... 11
   Map clystyrau ....... 13
   Gweithgaredd sgorio ....... 16
   Dadansoddiad Paru Patrymau ....... 21
   Go-Zone ....... 27

3. Crynodeb ....... 32
   Cryfderau a Chyfyngiadau ....... 35

Cyfeiriadau ....... 36

Atodiad 1 – Rhestr lawn o'r datganiadau (n=51) ....... 37
Atodiad 2 – Ymatebion y cyfranogwyr i'r cwestiynau demograffig ....... 40

### Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: Map pwyntiau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur, yn cynrychioli'r 51 datganiad ....... 13
Ffigur 2: Map clystyrau gyda labeli a ddeilliodd o'r ymarfer didoli a gwblhawyd gan y cyfranogwyr ....... 14
Ffigur 3: Adroddiad paru patrymau cymharol lle caiff sgoriau clystyrau eu cymharu ....... 21
Ffigur 4: Adroddiad paru patrymau cymharol lle caiff cyfranogwyr o'r trydydd sector a phob sefydliad arall eu cymharu – Cydnabyddiaeth (wedi bod yn rhan o'm profiad o'r RIF) ....... 23
Ffigur 5: Adroddiad paru patrymau cymharol lle caiff cyfranogwyr o'r trydydd sector a phob sefydliad arall eu cymharu – Dylanwad (o ran gweithredu'r RIF hyd yn hyn) ....... 26
Ffigur 6: Adroddiad Go-Zone yn dangos sut y caiff pob datganiad ei sgorio mewn perthynas â'r ddwy raddfa sgorio ....... 27

**Rhestr o Dablau**

Tabl 1: Y deg prif ddatganiad – lefel uchel o gydnabyddiaeth a lefel uchel o ddylanwad, yn ôl clwstwr 29
Tabl 2: Datganiadau â lefel isel o gydnabyddiaeth ond lefel uchel o ddylanwad, yn ôl clwstwr 30
Tabl 3: Y deg prif ddatganiad – lefel isel o gydnabyddiaeth a lefel isel o ddylanwad, yn ôl clwstwr 30

## Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn, a gynhaliwyd fel rhan o Gam Gweithredu blwyddyn dau y Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF), yn cyflwyno'r canfyddiadau sydd wedi deillio o'r ail astudiaeth Mapio Cysyniadau Grŵp ar-lein sy'n rhan o'r gwaith gwerthuso.

Mae'r ail astudiaeth hon mewn perthynas â Mapio Cysyniadau Grŵp yn adeiladu ar, ac yn cadarnhau, y canfyddiadau a ddeilliodd o Adroddiad Cyfweliadau Ansoddol blwyddyn dau (Bebb et al., 2025), trwy 'brofi synnwyr' y canfyddiadau a'r casgliadau hollbwysig gyda grŵp ehangach o randdeiliaid yr RIF.

Gan ddefnyddio meddalwedd Group Wisdom™, mae dull Mapio Cysyniadau Grŵp yn cynnwys rhanddeiliaid yn y broses ymchwil. Trwy integreiddio prosesau ansoddol gyda dadansoddiad ystadegol amlamrywedd, mae modd i grwpiau amrywiol o unigolion fynegi eu syniadau, a gellir cynrychioli'r syniadau hynny'n weledol trwy gyfrwng cyfres o fapiau cysyniadau perthynol. Trwy ddefnyddio dull Mapio Cysyniadau Grŵp ar-lein, gellir cael sampl o gyfranogwyr sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws y wlad, a all gymryd rhan yn yr astudiaeth ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddynt hwy.

Law yn llaw â chwestiynau demograffig, mae dull Mapio Cysyniadau Grŵp fel arfer yn gofyn i'r cyfranogwyr gwblhau tri gweithgaredd, sef: taflu syniadau, grwpio/didoli, a sgorio. Yn yr astudiaeth hon, cafodd datganiadau a gynhyrchir fel arfer gan y cyfranogwyr yn ystod y gweithgaredd 'taflu syniadau' eu tynnu o adrannau canfyddiadau a chasgliadau hollbwysig yr Adroddiad Cyfweliadau Ansoddol. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ddidoli'r datganiadau hyn a'u pentyrru yn ôl thema, gan eu sgorio trwy ddefnyddio dwy o raddfeydd pum pwynt Likert, sef: Cydnabyddiaeth a Dylanwad.

Chwiliwyd am hyd at 100 o gyfranogwyr (y nifer fwyaf ar gyfer y meddalwedd GroupWisdom™). Dosbarthwyd gwahoddiadau e-bost trwy gyfrwng porthgeidwaid (sef arweinwyr yr RIF a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol) i arweinwyr rhaglenni a phrosiectau a ariennir gan yr RIF yn eu rhanbarth. Ar ôl cael cydsyniad ar sail gwybodaeth, cofrestrodd y cyfranogwyr yn annibynnol ar y feddalwedd GroupWisdom™ trwy ddefnyddio dolen ar-lein.

Cynhaliodd y feddalwedd ar-lein bedwar cam mewn perthynas â dadansoddi data; a) Ystadegau disgrifiadol i ddadansoddi ymatebion demograffig y cyfranogwyr, b) Creu matrics tebygrwydd ar sail y datganiadau a ddidolwyd gan y cyfranogwyr a oedd yn dangos nifer y cyfranogwyr a ddidolodd y datganiadau gyda'i gilydd, c) Cynnal dadansoddiad graddio

amlddimensiwn o’r matrics tebygrwydd i greu map pwyntiau o’r datganiadau. Rhoddir pwynt i bob un o ddatganiadau’r cyfranogwyr ar echel dau ddimensiwn (XY), d) Defnyddiwyd algorithm Ward mewn dadansoddiad clwstwr hierarchaidd o glystyrau’r datganiadau i greu map clystyrau gyda labeli clystyrau, sgoriau clystyrau, adroddiad Paru Patrymau ac adroddiad Go-Zone.

**Canfyddiadau**

Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli'r mwyafrif o ranbarthau Cymru, ynghyd ag ystod o sefydliadau, ac roedd gan y mwyafrif o'r cyfranogwyr rolau ar lefel prosiectau. Er ein bod wedi cael cynrychiolaeth bron yn gyfartal rhwng cyfranogwyr Statudol a chyfranogwyr o'r Trydydd Sector, nid yw hyn o angenrheidrwydd yn cynrychioli cyfran y staff sy'n gweithio mewn prosiectau a ariennir gan yr RIF ledled Cymru.

Aeth y cyfranogwyr ati i ddidoli a sgorio 51 o ddatganiadau. Trwy ddadansoddi'r data a ddidolwyd, crëwyd map â 5 clwstwr o gysyniadau a oedd yn gysylltiedig â'u profiad a'r broses o weithredu'r RIF, sef: 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector'; 'Dysgu ar sail profiad'; 'Arloesi'; 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF'; a 'Data, monitro ac adrodd'.

Mae canlyniadau sgorio'r clystyrau a'r adroddiad paru patrymau (Ffigur 3) yn dangos tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng y sgoriau cyfartalog ar gyfer cydnabyddiaeth (bod y datganiad wedi bod yn rhan o brofiad y cyfranogwyr o'r RIF), a dylanwad (ar weithredu'r RIF hyd yn hyn). Er enghraifft, cafodd y clystyrau 'Dysgu ar sail profiad', 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector', a 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF', eu sgorio yn gyntaf, yn ail ac yn drydydd (yn y drefn honno) ar gyfer cydnabyddiaeth a dylanwad. Gwelwyd gwahaniaethau yn y sgoriau cyfartalog ar gyfer y clwstwr 'Data, monitro ac adrodd' (lleiaf cydnabyddedig), ac 'Arloesi (y lleiaf dylanwadol).

Cymharodd adroddiad Go-Zone (Ffigur 6) bob un o'r 51 datganiad ar draws y ddwy raddfa sgorio. Dangosodd yr adroddiad Go-Zone y datganiadau a oedd uwchlaw neu islaw'r cymedrig (cyfartaledd) ar draws y ddwy raddfa sgorio. Lleolwyd y mwyafrif o'r datganiadau yn y cwadrant gwyrdd (lefel uchel o gydnabyddiaeth, lefel uchel o ddylanwad) neu'r cwadrant glas (lefel isel o gydnabyddiaeth, lefel isel o ddylanwad). Yn sgil yr adroddiad Go-Zone, bu modd pennu'r deg prif ddatganiad yn y cwadrantau hyn. Cynrychiolir dau glwstwr yn y deg datganiad mwyaf cydnabyddedig a mwyaf dylanwadol – 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' a 'Dysgu ar sail profiad'. Yn neg prif ddatganiad y cwadrant Glas, gwelir mwy o amrywio o ran y clystyrau a gynrychiolir; a chynrychiolir pob clwstwr ar wahân i un ('Arloesi').

**Negeseuon hollbwysig sy'n deillio o'r astudiaeth Mapio Cysyniadau Grŵp:**

- Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli trawstoriad da o randdeiliaid yr RIF, yn cynnwys holl sefydliadau'r RIF a holl lefelau prosiectau'r RIF.

- Ar lefel sectorau, cafwyd cynrychiolaeth bron yn gyfartal o ymatebwyr o'r Trydydd Sector ac ymatebwyr o'r Sector Statudol.
- Yn ôl ymatebwyr a oedd yn perthyn i'r trydydd sector, 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' oedd yr elfen fwyaf cydnabyddedig mewn perthynas â'u profiad o'r RIF, a'r elfen fwyaf dylanwadol o ran gweithredu'r RIF.
- Yn ôl ymatebwyr o'r sector statudol, 'Dysgu ar sail profiad' oedd yr elfen fwyaf cydnabyddedig o'u profiad o'r RIF, a'r elfen fwyaf dylanwadol o ran gweithredu'r RIF.
- Cyfranogwyr a oedd yn gweithio ar lefel prosiectau'r RIF oedd y rhai â'r gynrychiolaeth fwyaf – tynnwyd sylw at ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach yr RIF (yn cynnwys y gweithlu) yng Ngham Gweithredu blwyddyn dau y gwerthusiad cyffredinol.
- Y clystyrau 'Data, monitro ac adrodd' ac 'Arloesi' oedd y clystyrau lleiaf cydnabyddedig a dylanwadol, ni waeth i ba sector yr oedd y cyfranogwyr yn perthyn na beth oedd lefel eu cysylltiad â'r RIF.
- Hefyd, mae sgoriau'r clystyrau'n dangos gwahaniaethau rhwng y ddwy raddfa sgorio:
    - Cydnabyddiaeth – Lleolir dau glwstwr, sef 'Data, monitro ac adrodd' ac 'Arloesi' ym mhen isaf y sgôr 3 (Anghytuno ei fod wedi bod yn rhan o'm profiad o'r RIF).
    - Dylanwad – er bod rhai clystyrau'n fwy dylanwadol mewn perthynas â gweithredu'r RIF, yn gyffredinol roedd gan bob clwstwr ddylanwad i ryw raddau, a lleolir y clwstwr isaf ei sgôr ('Arloesi') rhwng 2 (Fawr ddim dylanwad) a 3 (Rhywfaint o ddylanwad).
- Y datganiad mwyaf cydnabyddedig a mwyaf dylanwadol oedd 'Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid tymor hwy yn esgor ar risg i gynaliawyedd prosiectau/gwasanaethau'r RIF'.
- Y datganiad lleiaf cydnabyddedig a lleiaf dylanwadol oedd 'Mae cyfuno mentrau bach i greu prosiectau ambarél mwy wedi gwella strwythurau adrodd'.

# 1. Cyflwyniad a Dull

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r astudiaeth Mapio Cysyniadau Grŵp, a gynhaliwyd fel rhan o Gam Gweithredu blwyddyn dau y Gwerthusiad Cenedlaethol o'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF). Dyma'r ail astudiaeth yn y gyfres o astudiaethau Mapio Cysyniadau Grŵp sy'n rhan o'r gwaith gwerthuso; cwblhawyd yr astudiaeth gyntaf fel rhan o Gam Cysyniadau blwyddyn un (Wallace a Wallace, 2024).

1.2 Nod yr astudiaeth Mapio Cysyniadau Grŵp oedd adeiladu a chydgrynhoi'r canfyddiadau a ddeilliodd o Adroddiad Cyfweliadau Ansoddol blwyddyn dau (Bebb et al., 2025) trwy 'brofi synnwyr' y canfyddiadau a'r casgliadau hollbwysig gyda grŵp ehangach o randdeiliaid yr RIF.

**Mapio Cysyniadau Grŵp**

1.3 Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddull consensws ar-lein, sef Mapio Cysyniadau Grŵp (Kane a Trochim, 2007). Mae Mapio Cysyniadau Grŵp yn ddull cyfranogol cadarn a soffistigedig sy'n cynnwys rhanddeiliaid yn y broses ymchwil. Mae'n integreiddio prosesau ansoddol gyda dadansodiad ystadegol amlamrywedd er mwyn galluogi grŵp amrywiol o bobl i fynegi eu syniadau, ac yna caiff y syniadau hynny eu cynrychioli'n weledol trwy gyfrwng cyfres o fapiau cysyniadau perthynol.

1.4 Caiff dull Mapio Cysyniadau Grŵp ei arwain gan hwylusydd ac mae'n defnyddio meddalwedd GroupWisdomTM er mwyn casglu data, integreiddio data a dadansoddi. Mae'r feddalwedd GroupWisdomTM yn galluogi ymchwilwyr i gyrraedd sampl o gyfranogwyr sydd wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol ar draws y wlad, a all gymryd rhan yn yr astudiaeth ar adeg ac mewn lle sy'n gyfleus iddynt hwy.

Mapio Cysyniadau Grŵp – Y Broses

1.5 Fel arfer, gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan mewn astudiaeth Mapio Cysyniadau Grŵp gwblhau tri gweithgaredd ar-lein, sef: taflu syniadau, grwpio/didoli, a sgorio. Mae'r elfen 'taflu syniadau' yn gofyn i'r cyfranogwyr gynhyrchu cynifer o ddatganiadau ag y bo'n briodol, yn eu tyb nhw, mewn ymateb i ysgogiad ffocws. Ar ôl cynhyrchu'r datganiadau hyn, mae'r cyfranogwyr yn grwpio ac yn didoli'r holl ddatganiadau yn 'bentyrrau' a chanddynt thema arbennig sy'n gwneud synnwyr iddynt, gan labelu pob pentwr. Yn olaf, gofynnir i'r cyfranogwyr sgorio pob datganiad trwy ddefnyddio graddfa pum pwynt Likert.

1.6 Yn yr astudiaeth hon, yn hytrach na defnyddio datganiadau a gynhyrchir fel arfer gan y cyfranogwyr yng ngham 'taflu syniadau' y dull Mapio Cysyniadau Grŵp, tynnwyd datganiadau o adrannau canfyddiadau a chasgliadau hollbwysig yr Adroddiad Cyfweliadau Ansoddol, gan ddefnyddio'r broses ganlynol:

1. Adolygwyd yr adrannau canfyddiadau a chasgliadau hollbwysig gan yr awdur cyntaf, gan dynnu sylw at frawddegau a pharagraffau y dylid eu cofnodi mewn dogfen Excel.
2. Cafodd yr adrannau y tynnwyd sylw atynt eu hadolygu a chafodd paragraffau a brawddegau cyfansawdd eu hollti i greu rhestr gychwynnol o 81 datganiad a drefnwyd yn ddwy adran, sef: 'Llunio a datblygu', a 'Gweithredu hyd yn hyn'.
3. Ar ôl cynnal adolygiad a thrafodaeth gychwynnol ar y datganiadau hyn gydag arweinydd y gwerthusiad – yn cynnwys cael gwared â dyblygiadau a datganiadau â ffocws rhy gul, ynghyd â newid rhai mân elfennau gramadegol (Kane a Trochim, 2007) – lleihadwyd y rhestr i 52 datganiad.
4. Cyflwynwyd y rhestr hon i aelodau'r tîm gwerthuso ehangach, ac aethant ati i'w hadolygu; yna, fe'i hanfonwyd i'w hadolygu'n fanwl at awduron yr Adroddiad Cyfweliadau Ansoddol cyntaf a'r ail Adroddiad Cyfweliadau Ansoddol.
5. Ar ôl cael adborth, lanlwythwyd rhestr derfynol o 51 datganiad ar feddalwedd y dull Mapio Cysyniadau Grŵp, er mwyn i'r cyfranogwyr allu eu didoli a'u sgorio. Ceir rhestr lawn o'r datganiadau yn Atodiad 1.

**Casglu data a recriwtio cyfranogwyr**

1.7 Cafodd gwahoddiadau e-bost, ynghyd â dolen gysylltiedig ar gyfer taflen wybodaeth a ffurflen gydsynio ar-lein, eu dosbarthu trwy gyfrwng porthgeidwaid (sef arweinwyr yr RIF a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol) i arweinwyr rhaglenni a phrosiectau a ariennir gan yr RIF yn eu rhanbarth. Ar ôl i'r cyfranogwyr gadarnhau eu bod yn cydsynio, cawsant ddolen ar gyfer cofrestru'n annibynnol ar y feddalwedd GroupWisdom™.

1.8 Cynhaliwyd yr astudiaeth yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ystod mis Mai 2025. Ceisiwyd a chafwyd cymeradwyaeth foesegol trwy gyfrwng Prifysgol De Cymru [230213LR].

Didoli a sgorio

1.9 Agorwyd y gweithgareddau didoli a sgorio gyda'i gilydd. Yn sgil meddalwedd y dull Mapio Cysyniadau Grŵp, bu modd i'r cyfranogwyr gadw'u cynnydd a dychwelyd i gwblhau'r gweithgareddau'n ddiweddarach / ar adeg a oedd yn gyfleus iddynt.

1.10 Yn yr astudiaeth hon, dyma'r graddfeydd sgorio a ddefnyddiwyd:

- Cydnabyddiaeth – I ba raddau ydych chi'n cydnabod (cytuno neu anghytuno) bod y datganiad hwn yn cynrychioli eich profiad o'r RIF?
    - Amherthnasol – nid oedd yn rhan o'm profiad, 2. Anghytuno'n gryf, 3. Anghytuno, 4. Cytuno, 5. Cytuno'n gryf.
- Dylanwad – Pa mor ddylanwadol fu'r datganiad hwn wrth weithredu'r RIF hyd yn hyn?
    - Amherthnasol – nid oedd yn rhan o'm profiad, 2. Fawr ddim dylanwad o gwbl, 3. Rhywfaint o ddylanwad, 4. Dylanwadol, 5. Dylanwadol iawn.

Cwestiynau demograffig

1.11 Yn ychwanegol at y gweithgareddau didoli a sgorio, gofynnwyd tri chwestiwn demograffig i'r cyfranogwyr a oedd wedi cofrestru ar y feddalwedd:

1. Ym mha ardal ddaearyddol ydych chi'n gweithio'n bennaf?
2. I sut fath o sefydliad o blith y rhai isod ydych chi'n gweithio'n bennaf?
3. Ar ba lefel ydych chi'n bennaf gysylltiedig â'r RIF?

**Dadansoddi data**

1.12 Cynhaliodd y feddalwedd ar-lein bedwar cam mewn perthynas â dadansoddi data (Kane a Trochim, 2007):

- Cam 1: Cafodd ymatebion y cyfranogwyr i'r tri chwestiwn demograffig eu dadansoddi trwy ddefnyddio ystadegau disgrifiadol.
- Cam 2: Llunnir matrics tebygrwydd ar sail y datganiadau a ddidolwyd gan y cyfranogwyr. Dengys y matrics hwn faint o gyfranogwyr a ddidolodd y datganiadau gyda'i gilydd.
- Cam 3: Mae dadansoddiad sgorio amlddimensiwn o'r matrics tebygrwydd yn cynhyrchu map pwyntiau o'r datganiadau. Rhoddir pwynt i bob un o ddatganiadau'r cyfranogwyr ar echel dau ddimensiwn (XY) (Ffigur 1).

- Cam 4: Defnyddiwyd algorithm Ward mewn dadansoddiad clwstwr hierarchaidd o glystyrau'r datganiadau i greu map clystyrau gyda labeli (Ffigur 2), adroddiad Paru Patrymau (Ffigur 3) a dadansoddiad Go-Zone (Ffigur 6). Trwy ddefnyddio'r dadansoddiad Go-Zone, bu modd pennu'r datganiadau mwyaf a lleiaf cydnabyddedig , a'r datganiadau mwyaf a lleiaf dylanwadol, ar sail sgôr y cyfranogwyr.

## 2. Canfyddiadau

2.1 Cydsyniodd y cyfranogwyr i gymryd rhan yn yr astudiaeth Mapio Cysyniadau Grŵp ac aethant ati i gofrestru'n annibynnol trwy ddefnyddio meddalwedd GroupWisdom™. Yn Nhabl 1, dangosir nifer y cyfranogwyr a gwblhaodd yr holl weithgareddau. Cofrestrodd tri deg saith o gyfranogwyr ar y feddalwedd; ac o blith y rhain, fe wnaeth 33 gwblhau'r cwestiynau demograffig, fe wnaeth 21 gwblhau'r gweithgaredd didoli, fe wnaeth 23 gwblhau'r gweithgaredd sgorio cyntaf ac fe wnaeth 18 gwblhau'r ail weithgaredd sgorio.

2.2 Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli'r mwyafrif o ranbarthau Cymru, ynghyd ag ystod o sefydliadau. Er ein bod wedi cael cynrychiolaeth bron yn gyfartal rhwng cyfranogwyr Statudol (Awdurdodau Lleol, n=9; Iechyd, n=5) a chyfranogwyr o'r Trydydd Sector (n=14, n=16), nid yw hyn o angenrheidrwydd yn cynrychioli cyfran y staff sy'n gweithio mewn prosiectau a ariennir gan yr RIF ledled Cymru. Derbyniwyd dau ymateb 'arall' i'r math o sefydliadau yr oedd y cyfranogwyr yn gweithio iddynt yn bennaf – sef 'Prosiect trawsnewid rhanbarthol sy'n gweithio mewn partneriaeth gydag iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a dinasyddion' ac 'Rydw i'n gweithio i'r GIG, ond mae hanner y tîm yn gweithio i awdurdod lleol'. Gweithwyr a oedd yn gweithio'n bennaf ar lefel prosiectau'r RIF oedd â'r gynrychiolaeth fwyaf (n=27), o gymharu â gweithwyr a oedd yn gweithio ar lefel ranbarthol (n=6).

2.3 Nodir manylion yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau demograffig yn Atodiad 2.

**Gweithgaredd didoli**


2.4 Yn y gweithgaredd hwn, aeth 21 o gyfranogwyr ati i ddiddoli a grwpio'r holl datganiadau'n unigol, gan eu rhoi mewn pentyrrau a chan roi label unigol i bob un. Roedd modd i'r cyfranogwyr ddewis creu cynifer o bentyrrau ag a oedd yn briodol, yn eu tyb nhw; er, cafodd y cyfranogwyr eu cynghori gan gyfarwyddiadau'r feddalwedd GroupWisdom™ bod 5-20 pentwr yn arferol, ar sail nifer y datganiadau yr oedd angen eu didoli (n=51).

2.5 Ar sail y gweithgaredd didoli, cynhyrchodd y feddalwedd fap pwyntiau'n dangos sut roedd y cyfranogwyr wedi didoli pob un o'r 51 datganiad (Ffigur 1 drosodd).

2.6 Mae pwynt yn cynrychioli pob datganiad. Po agosaf yw'r pwyntiau at ei gilydd, po amlaf y cafodd y datganiadau eu didoli gyda'i gilydd gan y cyfranogwyr. Er

enghraifft, mae datganiadau 18 ac 19 (gyda chylch coch o'u hamgylch) yn agos at ei gilydd, a dengys hyn eu bod wedi cael eu didoli gyda'i gilydd yn fwyaf mynych. I'r gwrthwyneb, mae datganiadau 26 a 31 (gyda chylch gwyrdd o'u hamgylch) ar ochrau gwahanol y map, a dengys hyn na chawsant eu didoli gyda'i gilydd yn fynych neu na chawsant eu didoli gyda'i gilydd o gwbl.

**Ffigur 1: Map pwyntiau a gynhyrchwyd gan gyfrifiadur, yn cynrychioli'r 51 datganiad**




2.7 Ar sail y map pwyntiau, gallwn weld 'clystyrau' o ddatganiadau, a gallwn weld ble y mae'r 'clystyru' yn llai amlwg, er enghraifft y datganiadau ar y chwith (gyda chylch porffor o'u hamgylch). Fodd bynnag, mae'r holl bwyntiau'n rhan o'r map clystyrau.

**Map clystyrau**

2.8 Cynhaliwyd dadansoddiad clwstwr hierarchaidd er mwyn canfod y nifer gorau posibl o glystyrau. Gellir defnyddio'r feddalwedd i gynhyrchu mapiau clystyrau niferus, gyda phob map yn arddangos nifer wahanol o glystyrau. Crëwyd pedwar o fapiau clystyrau (4-7 o atebion clystyrau) i arddangos y 51 pwynt (datganiad), ar sail pa mor debyg neu wahanol oedd y datganiadau hyn yn gysyniadol, ac i ddangos y modd y cafodd y datganiadau a ddidolwyd eu grwpio oddi mewn i glystyrau (Kane a Trochim, 2007). Ymhellach, lluniodd y feddalwedd restr o enwau posibl ar gyfer y clystyrau, ar sail labeli a roddwyd gan y cyfranogwyr yn ystod y cam didoli.


2.9 Adolygwyd holl atebion y mapiau clystyrau (4-7) gan y tîm gwerthuso ar sail y modd y cafodd y datganiadau eu grwpio ac ar sail eu perthynas gyda'i gilydd ym mhob un o'r mapiau clystyrau a'r labeli clystyrau posibl. Ar ôl mynd ati i gynnal trafodaeth a gwirio synnwyr y mapiau a'r labeli, cytunwyd ar fap â 5 clwstwr (Ffigur 2). Dyma'r labeli ar gyfer y 5 clwstwr:

- Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector
- Dysgu ar sail profiad

- Arloesi
- Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF
- Data, monitro ac adrodd.

**Ffigur 2: Map clystyrau gyda labeli a ddeilliodd o'r ymarfer didoli a gwblhawyd gan y cyfranogwyr**

| | |
|---|---|
| Partnerships especially with the 3rd sector | Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector |
| Learning from Experience | Dysgu ar sail profiad |
| Innovation | Arloesi |
| Data, monitoring and reporting | Data, monitro ac adrodd |
| Positive lessons from RIF | Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF |




2.10 Mae lleoliad pob datganiad oddi mewn i glwstwr yn seiliedig ar y modd y grwpiwyd pob datganiad gan y cyfranogwyr. Er enghraifft, mae datganiad 50 – sef 'Mae prosiectau'r RIF wedi cael eu llywio gan ddata i fireinio a gwella arferion' – yn gorwedd yn y clwstwr 'Data, monitro ac adrodd', gan mai yn y fan honno y cafodd ei osod yn bennaf gan y cyfranogwyr.

2.11 Caiff y berthynas gysyniadol rhwng y clystyrau ei harddangos gan y pellter sydd rhyngddynt – os ydynt yn agos at ei gilydd, ceir perthynas gref rhyngddynt; os ydynt

ymhellach oddi wrth ei gilydd, mae'r berthynas rhyngddynt yn wannach. Felly, mae'r clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' yn nes at y clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' a'r clwstwr 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' o gymharu â'r clystyrau eraill. Y clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' a'r clwstwr 'Data, monitro ac adrodd' oedd yn cynnwys y nifer fwyaf o ddatganiadau (n=12 yr un), ac yna'r clwstwr 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' (n=11), y clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' (n=9) a'r clwstwr 'Arloesi' (n=7).

Datganiadau angori

2.12 Mae gwerthoedd pontio yn dangos pa mor agos y mae rhyw ddatganiad yn perthyn i'r eitemau eraill yn ei glwstwr. Mae gwerthoedd pontio yn amrywio 0 i 1. Mae gwerthoedd pontio uchel yn awgrymu bod datganiad wedi'i ddidoli gyda syniadau mewn sawl clwstwr arall. Mae gwerthoedd pontio isel yn dangos bod y datganiad wedi'i ddidoli'n fwy cyson o fewn y clwstwr hwnnw; mae'r datganiadau hyn yn cynrychioli'r 'datganiadau angori' oddi mewn i glystyrau.

2.13 Dyma oedd gwerthoedd pontio pob clwstwr:

- Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector: 0.11
- Dysgu ar sail profiad: 00.7
- Arloesi: 0.62
- Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF: 0.18
- Data, monitro ac adrodd: 0.19

2.14 Er mai'r clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' (0.07) a'r clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' (0.11) oedd â'r gwerthoedd pontio isaf, mae gwerthoedd pontio cyfartalog isel y clwstwr 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' (0.18) a'r clwstwr 'Data, monitro ac adrodd' (0.19) yn dangos cydlyniant a chynrychiolaeth dda o ddata. Y clwstwr 'Arloesi' oedd y clwstwr lleiaf cydlynol o ran y modd y didolwyd y datganiadau.

2.15 Mae datganiadau angori'n cynnig ffocws defnyddiol ar gyfer y clwstwr gan mai nhw yw'r datganiadau a gaiff eu didoli'n fwyaf cyson gyda'i gilydd yn eu clwstwr; golyga hyn – yn fwy na datganiadau eraill – eu bod yn adlewyrchu cynnwys y clwstwr hwnnw h.y. maent yn 'gweddu' yn well i'r clwstwr hwnnw. Dyma'r datganiadau angori ar gyfer pob clwstwr:

- <u>Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector:</u>

    - Mae gweithio’n dda mewn partneriaeth yn elfen hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF (0.02)
    - Mae’n cymryd llawer o amser i ymwreiddio newid ymddygiad ledled y system ac integreiddio gwasanaethau (0.05)
- Dysgu ar sail profiad:
    - Mae rheoli ar y cyd yn elfen hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF (0.02)
    - Mae cyfleoedd i ehangu oddi mewn i ranbarthau yn ddibynnol ar gyd-destun lleol addas (0.03)
- Arloesi:
    - Mae prosiectau newydd/datblygol yr RIF yn mabwysiadu atebion arloesol (0.41)
    - Ni chaiff cyfleoedd i fabwysiadu datblygiadau digidol neu dechnolegol eu gwireddu’n llwyr (0.42)
- Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF:
    - Defnyddiwyd yr RIF yn unol â’r bwriad i ategu sbectrwm eang o wasanaethau (0.0)
    - Mae hyblygrwydd cyllid yr RIF wedi galluogi prosiectau i arloesi ac addasu i anghenion newidiol (0.08)
- Data, monitro ac adrodd:
    - Mae prosiectau’r RIF wedi cael eu llywio gan asesiad cadarn o anghenion i fireinio a gwella arferion (0.06)
    - Mae prosiectau/gwasanaethau’r RIF yn canolbwyntio ar eu hymatebion i flaenoriaethau lleol neu ranbarthol yn hytrach na’r Modelau Gofal (0.08)

**Gweithgaredd sgorio**

2.16 Gofynnwyd i’r cyfranogwyr sgorio pob un o’r 51 datganiad ar sail cydnabyddiaeth (bod y datganiad wedi bod yn rhan o’u profiad nhw o’r RIF, a dylanwad (ar weithredu’r RIF hyd yn hyn).

Cydnabyddiaeth

2.17 Ar gyfartaledd, y clwstwr ‘Dysgu ar sail profiad’ (4.03) oedd yr un a gafodd ei gydnabod fwyaf gan y cyfranogwyr fel y clwstwr a oedd yn cyfateb i’w profiad o’r RIF, ac yna’r clwstwr ‘Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector’ (3.99). Mae’r ddau glwstwr yn gorwedd oddi mewn i sgôr 4 (Cytuno). Lleolir y clwstwr ‘Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF’ (3.67), y clwstwr ‘Arloesi’ (3.12) a’r

clwstwr ‘Data, monitro ac adrodd’ (3.06) o fewn sgôr 3 (Anghytuno) – golyga hyn na chafodd y clystyrau hyn, ar gyfartaledd, eu cydnabod fel rhan o brofiadau’r cyfranogwyr o’r RIF.

2.18 Roedd un deg tri (n=13) o ddatganiadau’n gorwedd rhwng sgôr 4 (Cytuno) a sgôr 5 (Cytuno’n gryf). Golyga hyn fod y datganiadau yma’n cael eu cydnabod fwyaf fel rhan o brofiadau’r cyfranogwyr o’r RIF. Rhestrir y rhain isod, ynghyd â’u clwstwr perthnasol a’u sgôr gyfartalog:

1. Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid tymor hwy yn esgor ar risg i gynaliadwyedd prosiectau/gwasanaethau’r RIF (Dysgu ar sail profiad) – 4.92
2. Caiff heriau gweithredol eu dwysáu yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle ceir pwysau mawr ar adnoddau (Dysgu ar sail profiad) – 4.57
3. Mae gweithlu cryf, cadarn ac integredig yn hollbwysig o ran cyflawni’r RIF yn effeithiol (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4.46
4. Erys seilos traddodiadol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4.43
5. Mae cyfleoedd i ehangu oddi mewn i ranbarthau yn ddibynnol ar argaeledd adnoddau (Dysgu ar sail profiad) – 4.39
6. Mae gweithio’n dda mewn partneriaeth yn elfen hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4.39
7. Mae’n cymryd llawer o amser i ymwreiddio newid ymddygiad ledled y system ac integreiddio gwasanaethau (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4.29
8. Mae cynllunio strategol ar gyfer yr hirdymor yn dasg anodd wrth ymateb yn gyson i alwadau pwysig, byrdymor ar amser (Dysgu ar sail profiad) – 4.26
9. Mae effeithiolrwydd gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau’r trydydd sector yn amrywio (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4.22
10. Mae’n werthfawr cael cydbwysedd o ran data meintiol a naratifau ansoddol mewn gofynion adrodd (Data, monitro ac adrodd) – 4.13

11. Ceir cyfleoedd i esgor i raddau mwy ar ddysgu traws-brosiect, fel y gellir rhannu mewnwelediadau cyflawni, llwyddiannau a heriau (Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF) – 4.13
12. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn cyfoethogi prosiectau/gwasanaethau'r RIF (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – 4.13
13. Mae rôl y trydydd sector ym mhrosiectau/gwasanaethau'r RIF yn ddibynnol ar barhau i weithio mewn partneriaeth (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – 4.08

2.19 O blith yr 13 datganiad uchod, y clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' oedd y clwstwr â'r gynrychiolaeth fwyaf, gyda 7 datganiad; ac yna'r clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' (n=4), y clwstwr 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' (n=1) a'r clwstwr 'Data, monitro ac adrodd' (n=1).

2.20 Cafodd wyth (n=8) datganiad sgôr rhwng 2 (Anghytuno'n gryf) a 3 (Anghytuno); ni chafodd y datganiadau hyn eu cydnabod fel bod yn rhan o brofiad y cyfranogwyr o'r RIF. Yn y rhestr isod, ceir llai o amrywio o ran y clystyrau y lleolir y datganiadau hyn ynddynt (o gymharu â'r rhestr gynharach a oedd yn cynnwys 13 datganiad). Cynrychiolir dau glwstwr, sef: 'Data, monitro ac adrodd' (n=5) ac 'Arloesi' (n=3).

1. Mae cyfuno mentrau bach i greu prosiectau ambarél mwy wedi gwella strwythurau adrodd' (Data, monitro ac adrodd) – 2.38
2. Mae prosesau gwell o ran rhannu data wedi gwella integreiddiad tîm y prosiect (Data, monitro ac adrodd) – 2.61
3. Mae atebion digidol a thechnoleg arloesol wedi arwain at wasanaethau mwy effeithlon a hygyrch (Arloesi) – 2.64
4. Mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella effeithlonrwydd a lleihau'r baich gweinyddol (Data, monitro ac adrodd) – 2.68
5. Mae prosesau gwell o ran rhannu data wedi symleiddio prosesau adrodd (Data, monitro ac adrodd) – 2.72
6. Mae prosiectau/gwasanaethau'r RIF wedi defnyddio dulliau arloesol i wneud rolau'n fwy atyniadol (Arloesi) – 2.73
7. Mae model cyflawni'r RIF wedi lleihau problemau'n ymwneud â recriwtio a chadw'r gweithlu (Arloesi) 2.78

8. Mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella o ganlyniad i fwy o ymddiriedaeth a chraffu (Data, monitro ac adrodd) – 2.88

Dylanwad

2.21 Ar gyfartaledd, y clwstwr ‘Dysgu ar sail profiad’ (3.74) a sgoriwyd fel y clwstwr mwyaf dylanwadol o ran gweithredu’r RIF, ac yna’r clwstwr ‘Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector’ (3.71) a’r clwstwr ‘Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF’ (3.62). Mae’r tri chlwstwr hyn oddi mewn i sgôr 3 (Rhywfaint o ddylanwad) a 4 (Dylanwadol). Cafodd y clwstwr ‘Data, monitro ac adrodd’ (2.96) a’r clwstwr ‘Arloesi’ (2.79) sgôr rhwng 2 (Fawr ddim dylanwad) a 3 (Rhywfaint o ddylanwad) o ran gweithredu’r RIF.

2.22 Roedd naw (n=9) o’r sgoriau a roddwyd i’r datganiadau rhwng 4 (Dylanwadol) a 5 (Dylanwadol iawn). Ystyriwyd mai’r datganiadau hyn oedd â’r dylanwad mwyaf o ran gweithredu’r RIF, a chânt eu nodi isod, ynghyd â’u clwstwr perthnasol a’u sgôr gyfartalog:

1. Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid tymor hwy yn esgor ar risg i gynaliadwyedd prosiectau/gwasanaethau’r RIF (Dysgu ar sail profiad) – 4.5
2. Mae gweithio’n dda mewn partneriaeth yn elfen hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4.29
3. Caiff heriau gweithredol eu dwysáu yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle ceir pwysau mawr ar adnoddau (Dysgu ar sail profiad) – 4.11
4. Mae cyfleoedd i ehangu oddi mewn i ranbarthau yn ddibynnol ar argaeledd adnoddau (Dysgu ar sail profiad) – 4.06
5. Mae’n cymryd llawer o amser i ymwreiddio newid ymddygiad ledled y system ac integreiddio gwasanaethau (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4.06
6. Mae gweithlu cryf, cadarn ac integredig yn hollbwysig o ran cyflawni’r RIF yn effeithiol (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4.06
7. Mae’r RIF wedi bod yn hollbwysig o ran cynyddu capasiti (Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF) – 4
8. Erys seilos traddodiadol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol (Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector) – 4

9. Mae rôl y trydydd sector ym mhrosiectau/gwasanaethau'r RIF yn ddibynnol ar barhau i weithio mewn partneriaeth (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – 4

2.23 Y clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' (n=5) oedd y sector â'r gynrychiolaeth fwyaf, ac yna'r clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' (n=3) a'r clwstwr 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' (n=1).

2.24 Cafodd un ar bymtheg o ddatganiadau (n=16) sgôr rhwng 2 (Fawr ddim dylanwad) a 3 (Rhywfaint o ddylanwad) mewn perthynas â gweithredu'r RIF. Y clwstwr 'Data, monitro ac adrodd' (n=8) oedd y clwstwr â'r gynrychiolaeth fwyaf, ac yna'r clwstwr 'Arloesi' (n=6) a'r clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' (n=2).

1. Mae cyfuno mentrau bach i greu prosiectau ambarél mwy wedi gwella strwythurau adrodd' (Data, monitro ac adrodd) – 2.29
2. Mae atebion digidol a thechnoleg arloesol wedi arwain at wasanaethau mwy effeithlon a hygyrch (Arloesi) – 2.32
3. Ni chaiff cyfleoedd i fabwysiadu datblygiadau digidol neu dechnolegol eu gwireddu'n llwyr (Arloesi) – 2.5
4. Mae Cymunedau Ymarfer yn elfen hollbwysig o rannu dysgu (Arloesi) – 2.53
5. Mae prosesau gwell o ran rhannu data wedi symleiddio prosesau adrodd (Data, monitro ac adrodd) – 2.56
6. Caiff y sector gwerth cymdeithasol ei gydnabod yn anghyson (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – 2.72
7. Mae prosesau gwell o ran rhannu data wedi gwella integreiddiad tîm y prosiect (Data, monitro ac adrodd) – 2.7
8. Mae integreiddio gyda'r sector gwerth cymdeithasol yn digwydd mewn modd anghyson (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – 2.76
9. Mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella effeithlonrwydd a lleihau'r baich gweinyddol (Data, monitro ac adrodd) – 2.83
10. Mae prosiectau/gwasanaethau'r RIF wedi defnyddio dulliau arloesol i wneud rolau'n fwy atyniadol (Arloesi) – 2.83

11. Mae prosiectau newydd/datblygol yr RIF yn defnyddio atebion arloesol (Arloesi) – 2.84
12. Mae prosiectau/gwasanaethau'r RIF yn canolbwyntio ar eu hymatebion i flaenoriaethau lleol neu ranbarthol yn hytrach na'r Modelau Gofal (Data, monitro ac adrodd) – 2.88
13. Mae prosiectau'r RIF wedi dysgu ar sail prosiectau tebyg eraill (Data, monitro ac adrodd) – 2.89
14. Mae model cyflawni'r RIF wedi lleihau problemau'n ymwneud â recriwtio a chadw'r gweithlu (Arloesi) – 2.89
15. Mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella o ganlyniad i ofynion symlach (Data, monitro ac adrodd) – 2.94
16. Mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella o ganlyniad i fwy o ymddiriedaeth a chraffu (Data, monitro ac adrodd) – 2.94

**Dadansoddiad paru patrymau**


2.25 Gellir deall sgoriau'r clystyrau'n well trwy ddefnyddio adroddiadau Paru Patrymau. Yn Ffigur 3, dangosir y sgôr gyfartalog ar gyfer pob clwstwr ar y ddwy raddfa. Dyma waith paru patrymau cymharol, felly mae'n cynrychioli cyfartaleddau'r clystyrau oddi mewn i'r amrediad o sgoriau ar gyfer pob graddfa, yn hytrach nag ar raddfa sefydlog, absoliwt. Mae'r gwaith paru patrymau yn galluogi'r ymchwilydd i gymharu amryfal fesuriadau i sefydlu tuedd (Kamat, 2019).

2.26 Gan fodd y graddfeydd sgorio'n mesur gwahanol gysyniadau (h.y. Cydnabyddiaeth, a Dylanwad), mae'n fwy buddiol cymharu sgoriau'r clystyrau ar y gwahanol raddfeydd, yn hytrach na'r niferoedd absoliwt, na ellir eu cymharu o bosibl. Mae'r gwaith paru patrymau'n dangos cydberthynas linol gref rhwng y ddwy raddfa sgorio (r=0.96); golyga hyn y ceir cydlyniant rhwng sgoriau'r clystyrau ar draws y ddwy raddfa.

**Ffigur 3: Adroddiad paru patrymau cymharol lle caiff sgoriau clystyrau eu cymharu**

| | |
|---|---|
| Recognition – experience of RIF | Cydnabyddiaeth – profiad o'r RIF |
| Influence – RIF implementation | Dylanwad – gweithredu'r RIF |
| Learning from Experience | Dysgu ar sail profiad |
| Partnerships especially with the 3rd sector | Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector |

| | |
|---|---|
| Positive lessons from RIF | Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF |
| Innovation | Arloesi |
| Data, monitoring and reporting | Data, monitro ac adrodd |





2.27 Mae Ffigur 3 yn dangos y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y clystyrau. Er enghraifft, y clystyrau 'Dysgu ar sail profiad', 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' a 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' a sgoriwyd yn gyntaf, yn ail ac yn drydydd (yn y drefn honno) o ran cydnabod eu bod yn rhan o brofiad y cyfranogwyr o'r RIF, ac o ran bod yn fwyaf dylanwadol wrth weithredu'r RIF. Gellir gweld gwahaniaethau trwy edrych ar leoliad y sgôr gyfartalog ar gyfer y clystyrau 'Data, monitro ac adrodd' ac 'Arloesi' ar gyfer y ddwy raddfa sgorio.

Paru Patrymau: demograffeg y cyfranogwyr

2.28 Hefyd, aethpwyd i'r afael â gwaith dadansoddi Paru Patrymau cymharol i bennu sgoriau cyfartalog y clystyrau ar gyfer y ddwy raddfa ar sail ymatebion demograffig. Cafodd yr ymatebion ar gyfer pob graddfa eu grwpio ar sail a oedd y cyfranogwyr yn cynrychioli naill ai'r trydydd sector neu bob sefydliad arall (awdurdodau lleol, y GIG, a Phartneriaethau Rhanbarthol) er mwyn gallu dwyn cymhariaeth ar draws y ddau grŵp (gweler y ffigurau yn Atodiad 2 ). Dengys Ffigur 4 y tebygrwydd a'r gwahaniaethau gogyfer y sgôr 'cydnabyddiaeth' (r=0.8) ar gyfer y ddau grŵp.

**Ffigur 4: Adroddiad paru patrymau cymharol lle caiff cyfranogwyr o'r trydydd sector a phob sefydliad arall eu cymharu – Cydnabyddiaeth (wedi bod yn rhan o'm profiad o'r RIF)**




| | |
|---|---|
| Third sector: Recognition – experience of RIF | Y trydydd sector: Cydnabyddiaeth – profiad o'r RIF |
| Non-third sector: Recognition – experience of RIF | Heb fod yn rhan o'r trydydd sector: Cydnabyddiaeth – profiad o'r RIF |
| Learning from Experience | Dysgu ar sail profiad |
| Partnerships especially with the 3rd sector | Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector |
| Positive lessons from RIF | Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF |
| Innovation | Arloesi |
| Data, monitoring and reporting | Data, monitro ac adrodd |

2.29 Yn achos cyfranogwyr a oedd yn gweithio i sefydliadau'r trydydd sector, y clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' (4.20) oedd y clwstwr y cydnabuwyd yn bennaf ei fod yn rhan o'u profiad o'r RIF; y clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' (4.19) a gafodd y sgôr uchaf gan y rhai nad oeddynt yn gweithio i sefydliadau'r trydydd sector. Lleolir y ddwy sgôr hyn rhwng 4 (Cytuno) a 5 (Cytuno'n gryf). Yn achos sefydliadau nad oeddynt yn rhan o'r trydydd sector, dengys y gwaith paru patrymau fod y clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' wedi cael y sgôr uchaf ond dwy (3.76), a'i fod yn gorwedd rhwng 3 (Anghytuno) a 4 (Cytuno). Gellir gweld tebygrwydd o ran y sgôr a gafodd y clwstwr 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' gan gyfranogwyr a oedd yn rhan o'r trydydd sector a chyfranogwyr nad oeddynt yn rhan o'r trydydd sector (y sgôr uchaf ond dwy, 3.56 a 3.77 yn y drefn honno). Fel y dengys Ffigur 4, y clwstwr 'Data, monitro ac adrodd' a'r clwstwr 'Arloesi' a gafodd y sgôr isaf gan y ddau grŵp.

2.30 Hefyd, dengys Ffigur 5 (drosodd) debygrwydd a gwahaniaethau ar gyfer y sgôr 'dylanwad' ymhlith sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau nad oeddynt yn rhan o'r trydydd sector (r=0.66). Mae gwahaniaethau yn y sgôr yn cynnwys y clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' – ar gyfartaledd, cafodd y clwstwr hwn ei sgorio fel y clwstwr mwyaf dylanwadol gan gyfranogwyr o'r trydydd sector (4.04); ond fe'i sgoriwyd fel y clwstwr mwyaf dylanwadol ond dau (3.43) gan gyfranogwyr nad oeddynt yn rhan o'r trydydd sector.

2.31 Y clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' a sgoriwyd fel y clwstwr mwyaf dylanwadol gan gyfranogwyr nad oeddynt yn rhan o'r trydydd sector (4.03); tra cafodd ei sgorio fel y clwstwr mwyaf dylanwadol ond dau (3.56) gan y rhai a oedd yn rhan o'r trydydd sector. Gwelwyd tebygrwydd yn achos y clwstwr 'Data, monitro ac adrodd' a'r clwstwr 'Arloesi': y ddau glwstwr hyn oedd y lleiaf dylanwadol o ran gweithredu'r RIF ym marn cyfranogwyr o'r trydydd sector a chyfranogwyr nad oeddynt yn rhan o'r trydydd sector.


2.32 Hefyd, yn achos y ddwy raddfa, gwelwyd tebygrwydd a gwahaniaethau ar sail a oedd y cyfranogwyr yn gweithio naill ai i brosiectau'r RIF neu ar lefel ranbarthol.

2.33 Ar gyfer y raddfa 'cydnabyddiaeth', y clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' (4.07) oedd y clwstwr a gafodd ei gydnabod fwyaf ymhlith y rhai a oedd yn gweithio ar lefel prosiectau; a'r clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' (4.18)

oedd y clwstwr a gafodd ei gydnabod fwyaf fel bod yn rhan o'u profiad o'r RIF ymhlith y rhai a oedd yn gweithio ar lefel ranbarthol. Yn achos y ddau grŵp, sgoriwyd y clwstwr 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' fel y clwstwr pwysicaf ond dau yn hyn o beth (3.72, 3.69); a'r clystyrau 'Data, monitro ac adrodd' (3.17, 2.81) ac 'Arloesi' (3.18, 2.84) oedd y rhai a gafodd y gydnabyddiaeth leiaf.

**Ffigur 5: Adroddiad paru patrymau cymharol lle caiff cyfranogwyr o'r trydydd sector a phob sefydliad arall eu cymharu – Dylanwad (o ran gweithredu'r RIF hyd yn hyn)**

| | |
|---|---|
| Third sector: Recognition – RIF implementation | Y trydydd sector: Cydnabyddiaeth – gweithredu'r RIF |
| Non-third sector: Recognition – RIF implementation | Heb fod yn rhan o'r trydydd sector: Cydnabyddiaeth – gweithredu'r RIF |
| Learning from Experience | Dysgu ar sail profiad |
| Partnerships especially with the 3rd sector | Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector |
| Positive lessons from RIF | Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF |
| Innovation | Arloesi |
| Data, monitoring and reporting | Data, monitro ac adrodd |




2.34 O ran y sgôr ‘dylanwad’, sgoriwyd y clwstwr ‘Dysgu ar sail profiad’ (3.69) fel y clwstwr mwyaf dylanwadol gan gyfranogwyr a oedd yn gweithio ar lefel prosiectau, gyda’r clwstwr ‘Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector’ (3.63) a’r clwstwr ‘Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF’ (3.62) yn dynn ar ei sodlau. Yn achos y rhai a oedd yn gweithio ar lefel ranbarthol, gwelir mai’r clwstwr ‘Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector’ (3.94) oedd y clwstwr mwyaf dylanwadol, ac yna’r clwstwr ‘Dysgu ar sail profiad’ (3.88). Yn achos y ddau grŵp – sef y grŵp a oedd y gweithio ar lefel prosiectau a’r grŵp a oedd yn gweithio ar lefel ranbarthol – gwelir mai’r clwstwr ‘Arloesi’ oedd y lleiaf dylanwadol (2.72 a 2.96), ac yna’r clwstwr ‘Data, monitro ac adrodd’ (2.89 a 3.16).

**Go-Zone**

2.35 Gan ddefnyddio’r map clystyrau a’r graddfeydd sgorio, lluniwyd adroddiad Go-Zone gan y feddalwedd (Ffigur 6).

**Ffigur 6: Adroddiad Go-Zone yn dangos sut y caiff pob datganiad ei sgorio mewn perthynas â’r ddwy raddfa sgorio**

| | |
|---|---|
| Recognition – experience of RIF | Cydnabyddiaeth – profiad o’r RIF |
| Influence – RIF implementation | Dylanwad – gweithredu’r RIF |




2.36 Mae’r adroddiad Go-Zone yn cymharu’r holl ddatganiadau ar draws meini prawf y ddwy raddfa sgorio. Rhoddwyd y datganiadau ar graff a oedd yn cynnwys pedwar cwadrant (mae gan bob cwadrant ei liw arbennig ei hun), ar sail sgôr gymedrig pob datganiad ar y ddwy raddfa, fel y’u sgoriwyd gan y cyfranogwyr. Dengys yr adroddiad Go-Zone (Ffigur 6) pa ddatganiadau a oedd uwchlaw neu islaw’r cymedr (cyfartaledd) ar draws y meini prawf a ddewiswyd. Yn achos y datganiadau y gwelir eu bod uwchlaw’r sgôr gymedrig ar gyfer ‘cydnabyddiaeth’ (3.59), dyma’r datganiadau a gafodd eu cydnabod fwyaf fel bod yn rhan o brofiad y cyfranogwyr; yn achos y datganiadau y gwelir eu bod uwchlaw’r sgôr gyfartalog ar gyfer ‘dylanwad’ (3.39), dyma’r datganiadau a oedd yn fwyaf dylanwadol o ran gweithredu’r RIF:

- Y cwadrant gwyrdd – 23 datganiad: Lefel uchel o gydnabyddiaeth, Lefel uchel o ddylanwad
- Y cwadrant oren – 1 datganiad: Lefel uchel o gydnabyddiaeth, Lefel isel o ddylanwad
- Y cwadrant melyn – 3 datganiad: Lefel isel o gydnabyddiaeth, Lefel uchel o ddylanwad

- Y cwadrant glas – 28 datganiad: Lefel isel o gydnabyddiaeth, Lefel isel o ddylanwad

2.37 Lleolir y datganiadau sydd uwchlaw'r sgôr gymedrig ar gyfer 'cydnabyddiaeth' yn y parthau oren a gwyrdd; lleolir y datganiadau sydd uwchlaw'r sgôr gymedrig ar gyfer 'dylanwad' yn y parthau gwyrdd a melyn. Fel y nodir uchod, lleolir y mwyafrif o'r 51 datganiad yn y cwadrant gwyrdd neu'r cwadrant glas.

2.38 Gwelir cydberthynas gref (r=0.88) rhwng y ddwy gyfres o sgoriau; golyga hyn y ceir cydberthynas linol gref rhwng y ddwy raddfa. Dengys hyn fod cynnydd mewn un sgôr yn gysylltiedig â chynnydd mewn sgôr arall; os sgoriwyd rhyw ddatganiad ar y sail fod y cyfranogwyr yn cydnabod ei fod yn rhan o'u profiad o'r RIF, roedd hi'n fwy tebygol y byddai'r datganiad hwnnw wedi cael ei sgorio ar sail bod yn ddylanwadol wrth weithredu'r RIF.

2.39 Trwy archwilio'r 23 datganiad yn y cwadrant gwyrdd, gallwn bennu'r deg prif ddatganiad a'u clystyrau perthnasol (Tabl 1):

**Tabl 1: Y deg prif ddatganiad – lefel uchel o gydnabyddiaeth a lefel uchel o ddylanwad, yn ôl clwstwr**

1. Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid tymor hwy yn esgor ar risg i gynaliadwyedd prosiectau/gwasanaethau'r RIF (Dysgu ar sail profiad) – Sgôr gymedrig = 4.71
2. Mae gweithio'n dda mewn partneriaeth yn elfen hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 4.34
3. Caiff heriau gweithredol eu dwysáu yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle ceir pwysau mawr ar adnoddau (Dysgu ar sail profiad) – Sgôr gymedrig = 4.33
4. Mae gweithlu cryf, cadarn ac integredig yn hollbwysig o ran cyflawni'r RIF yn effeithiol (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 4.26
5. Mae cyfleoedd i ehangu oddi mewn i ranbarthau yn ddibynnol ar argaeledd adnoddau (Dysgu ar sail profiad) – Sgôr gymedrig = 4.23
6. Erys seilos traddodiadol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 4.22
7. Mae'n cymryd llawer o amser i ymwreiddio newid ymddygiad ledled y system ac integreiddio gwasanaethau (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 4.18

8. Mae cynllunio strategol ar gyfer yr hirdymor yn dasg anodd wrth ymateb yn gyson i alwadau pwysig, byrdymor ar amser (Dysgu ar sail profiad) – Sgôr gymedrig = 4.05
9. Mae rôl y trydydd sector ym mhrosiectau/gwasanaethau'r RIF yn ddibynnol ar barhau i weithio mewn partneriaeth (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 4.04
10. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn cyfoethogi prosiectau/gwasanaethau'r RIF (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 4.01

2.40 A sail Tabl 1 uchod, gallwn weld y cynrychiolir dau glwstwr yn y deg prif ddatganiad mwyaf cydnabyddedig a mwyaf dylanwadol – sef 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' (n=6 datganiad) a 'Dysgu ar sail profiad' (n=4 datganiad).

2.41 Cynrychiolir tri datganiad yng nghwadrant melyn yr adroddiad Go-Zone. Yn Nhabl 2, nodir y rhain yn nhrefn eu sgôr gyfartalog a hefyd nodir eu clystyrau perthnasol.

**Tabl 2: Datganiadau â lefel isel o gydnabyddiaeth ond lefel uchel o ddylanwad, yn ôl clwstwr**

1. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn mynd i'r afael â bylchau ym mhrosiectau/gwasanaethau'r RIF (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 3.67
2. Siapiwyd prosiectau'r RIF gan adborth parhaus gan ddefnyddwyr gwasanaethau i fireinio a gwella arferion (Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF) – Sgôr gymedrig = 3.58
3. Mae'r sicrwydd ariannol tymor hwy a roddir i swyddi trwy gyfrwng cynllun yr RIF wedi gwella sefydlogrwydd y gweithlu (Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF) – Sgôr gymedrig = 4.00

2.42 Trwy ddadansoddi'r 28 datganiad yn y cwadrant glas, gellir pennu'r deg prif ddatganiad a'u clystyrau perthnasol (gweler Tabl 3 isod). Yn Nhabl 3, gwelir mwy o amrywio yn y clystyrau a gynrychiolir; yn wir, cynrychiolir pob clwstwr ar wahân i un – hynny yw 'Data, monitro ac adrodd' (n=4), 'Dysgu ar sail profiad' (n=2), 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' (n=2), a 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' (n=2).

**Tabl 3: Y deg prif ddatganiad – lefel isel o gydnabyddiaeth a lefel isel o ddylanwad, yn ôl clwstwr**

1. Collwyd cyfleoedd i gydweithredu ac arloesi'n ddyfnach gyda'r trydydd sector (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 3.40
2. Mae'r seilwaith a'r adnoddau rhanbarthol wedi galluogi prosiectau i arloesi ac addasu i anghenion newidiol (Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF) – Sgôr gymedrig = 3.40
3. Mae prosiectau newydd/datblygol yr RIF wedi cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau (Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF) – Sgôr gymedrig = 3.40
4. Mae prosiectau'r RIF yn esblygu i weithredu mewn modd mwy rhanbarthol ac integredig (Data, monitro ac adrodd) – Sgôr gymedrig – 3.37
5. Mae prosiectau'r RIF yn cydweddu'n dda â'r Model Gofal yr adroddant iddo (Dysgu ar sail profiad) – Sgôr gymedrig = 3.37
6. Mae prosiectau'r RIF wedi cael eu llywio gan ddata i fireinio a gwella arferion (Data, monitro ac adrodd) – Sgôr gymedrig = 3.31
7. Mae prosiectau'r RIF wedi dysgu ar sail prosiectau tebyg eraill (Data, monitro ac adrodd) – Sgôr gymedrig – 3.15
8. Caiff y sector gwerth cymdeithasol ei gydnabod yn anghyson (Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector) – Sgôr gymedrig = 3.15
9. Mae prosiectau'r RIF wedi cael eu llywio gan asesiad cadarn o anghenion i fireinio a gwella arferion (Data, monitro ac adrodd) – Sgôr gymedrig = 3.15
10. Mae rheoli ar y cyd yn elfen hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF (Dysgu ar sail profiad) – Sgôr gymedrig = 3.13

# 3. Crynodeb

3.1 Cynhaliwyd yr astudiaeth ar-lein hon mewn perthynas â Mapio Cysyniadau Grŵp fel rhan o Gam Gweithredu blwyddyn dau y Gwerthusiad Cenedlaethol o’r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF). Nod yr astudiaeth Mapio Cysyniadau Grŵp oedd adeiladu ar, a chadarnhau, y canfyddiadau a ddeilliodd o Adroddiad Cyfweliadau Ansoddol blwyddyn dau (Bebb et al., 2025), trwy ‘brofi synnwyr’ y canfyddiadau a’r casgliadau hollbwysig gyda grŵp ehangach o randdeiliaid yr RIF.

3.2 Dengys data demograffig fod y cyfranogwyr yn cynrychioli’r mwyafrif o ranbarthau Cymru, ynghyd ag ystod o sefydliadau, ac roedd gan y mwyafrif o’r cyfranogwyr rolau ar lefel prosiectau. Er ein bod wedi cael cynrychiolaeth bron yn gyfartal rhwng cyfranogwyr Statudol a chyfranogwyr o’r Trydydd Sector, nid yw hyn o angenrheidrwydd yn cynrychioli cyfran y staff sy’n gweithio mewn prosiectau a ariennir gan yr RIF ledled Cymru.

3.3

Aeth y cyfranogwyr ati i ddidoli a sgorio 51 o ddatganiadau a ddeilliodd o Adroddiad Cyfweliadau Ansoddol blwyddyn dau (Bebb et al., 2025). Arweiniodd hyn at ddatblygu map â 5 clwstwr, a oedd yn gysylltiedig â gweithredu’r RIF:

1. Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector
2. Dysgu ar sail profiad
3. Arloesi
4. Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF
5. Data, monitro ac adrodd.

3.4 Ar sail y sgoriau a roddwyd i ddatganiadau unigol, dengys y mapiau sgorio mai’r clwstwr ‘Dysgu ar sail profiad’ (4.03) a’r clwstwr ‘Partneriaethau yn enwedig gyda’r trydydd sector’ (3.99) oedd y clystyrau mwyaf cydnabyddedig ymhlith y cyfranogwyr mewn perthynas â bod yn rhan o’u profiad o’r RIF. Ar lefel y datganiadau, cafodd 13 datganiad sgôr rhwng 4 (Cytuno) a 5 (Cytuno’n gryf), ac roedd y datganiad mwyaf cydnabyddedig wedi’i leoli yn y clwstwr ‘Dysgu ar sail profiad’ – sef ‘Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid tymor hwy yn esgor ar risg i gynaliadwyedd prosiectau/gwasanaethau’r RIF’ (4.92).

3.5 Dengys yr ail fap sgorio (dylanwad ar weithredu'r RIF hyd yn hyn) mai'r clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' (3.74) oedd y clwstwr mwyaf dylanwadol. Gwelir bod y clwstwr hwn, ynghyd â dau glwstwr arall – sef 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' (3.71) a 'Gwersi cadarnhaol a ddysgwyd gan yr RIF' (3.62) – wedi'i leoli oddi mewn i'r amrediad sgorio 3 (Rhywfaint o ddylanwad) a 4 (Dylanwadol). Y clystyrau 'Data, monitro ac adrodd' (2.96) ac 'Arloesi' (2.79) a gafodd y sgôr isaf o ran dylanwad wrth weithredu'r RIF hyd yn hyn, a gwelir bod y sgoriau wedi'u lleoli rhwng 2 (Fawr ddim dylanwad o gwbl) a 3 (Rhywfaint o ddylanwad). Gwelir bod naw (n=9) datganiad wedi cael sgôr rhwng 4 (Dylanwadol) a 5 (Dylanwadol iawn). Yn achos y datganiad a gafodd y sgôr fwyaf mewn perthynas â chydnabyddiaeth, y datganiad hwnnw hefyd a gafodd y sgôr fwyaf mewn perthynas â dylanwad wrth weithredu'r RIF – sef 'Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid tymor hwy yn esgor ar risg i gynaliawyedd prosiectau/gwasanaethau'r RIF' (4.5).

3.6 Hefyd, gwelir tebygrwydd yn y datganiad a gafodd y sgôr isaf mewn perthynas â chydnabyddiaeth a'r sgôr isaf mewn perthynas â dylanwad – sef 'Mae cyfuno mentrau bach i greu prosiectau ambarél mwy wedi gwella strwythurau adrodd' (2.38, 2,29 yn y drefn honno), a leolir yn y clwstwr 'Data, monitro ac adrodd'.

3.7 Mae'r adroddiadau paru patrymau yn dangos tebygrwydd a gwahaniaethau yn sgoriau'r mapiau clystyrau ar gyfer y ddwy raddfa ar sail a oedd y cyfranogwyr yn gweithio yn y trydydd sector neu mewn unrhyw fath arall o sefydliad, ac ar ba lefel yr oeddynt yn gweithio o fewn yr RIF (ar lefel ranbarthol ynteu ar lefel prosiectau). Yn achos ymatebwyr o'r trydydd sector, y clwstwr 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' a gafodd y sgôr uchaf mewn perthynas â chydnabod ei fod yn rhan o'u profiad o'r RIF ac o ran bod yn fwyaf dylanwadol wrth weithredu'r RIF hyd yn hyn (4.20 a 4.04 yn y drefn honno). Yn achos ymatebwyr nad oeddynt yn rhan o'r trydydd sector, y clwstwr 'Dysgu ar sail profiad' a gafodd y sgôr uchaf o ran cydnabyddiaeth a dylanwad (4.19 a 4.04 yn y drefn honno). Gwelir bod y sgoriau hyn oddi mewn i'r amrediad sgorio 4 (Cytuno, Dylanwadol) a 5 (Cytuno'n gryf, Dylanwadol iawn).

3.8 Mae'r adroddiad Go-Zone yn dangos y datganiadau sydd uwchlaw neu islaw'r cymedr (cyfartaledd) ar draws y ddwy raddfa sgorio, a dangosir hefyd bod cydberthynas gadarnhaol gref yn bodoli rhwng y ddwy raddfa. Gwelir bod y mwyafrif o'r datganiadau wedi'u lleoli yn y cwadrant gwyrdd (Lefel uchel o gydnabyddiaeth, Lefel uchel o ddylanwad, n=23) neu'r cwadrant glas (Lefel isel o gydnabyddiaeth,

Lefel isel o ddylanwad, n=28). Yn sgil yr adroddiad Go-Zone, bu modd pennu'r deg prif ddatganiad yn y cwadrantau hyn. Mae'r datganiadau yn y cwadrant gwyrdd yn 'gadarnhaol' o gymharu â'r gweddill, o ran lefel y gydnabyddiaeth a'r dylanwad. Mae'r gwrthwyneb yn wir yn achos y datganiadau a leolir yn y cwadrant glas – y datganiadau hyn oedd y rhai lleiaf cydnabyddedig a lleiaf dylanwadol, ac o'r herwydd cawsant eu sgorio mewn modd mwy negyddol na datganiadau eraill.

3.9 I grynhoi:

- Roedd y cyfranogwyr yn cynrychioli trawstoriad da o randdeiliaid yr RIF, yn cynnwys holl sefydliadau'r RIF a holl lefelau prosiectau'r RIF.
- Ar lefel sectorau, cafwyd cynrychiolaeth bron yn gyfartal o ymatebwyr o'r Trydydd Sector ac ymatebwyr o'r Sector Statudol.
- Yn ôl ymatebwyr a oedd yn perthyn i'r trydydd sector, 'Partneriaethau yn enwedig gyda'r trydydd sector' oedd yr elfen fwyaf cydnabyddedig mewn perthynas â'u profiad o'r RIF, a'r elfen fwyaf dylanwadol o ran gweithredu'r RIF.
- Yn ôl ymatebwyr o'r sector statudol, 'Dysgu ar sail profiad' oedd yr elfen fwyaf cydnabyddedig o'u profiad o'r RIF, a'r elfen fwyaf dylanwadol o ran gweithredu'r RIF.
- Y clystyrau 'Data, monitro ac adrodd' ac 'Arloesi' oedd y clystyrau lleiaf cydnabyddedig a dylanwadol, ni waeth i ba sector yr oedd y cyfranogwyr yn perthyn na beth oedd lefel eu cysylltiad â'r RIF.
- Hefyd, mae sgoriau'r clystyrau'n dangos gwahaniaethau rhwng y ddwy raddfa sgorio:
  - Cydnabyddiaeth – Lleolir dau glwstwr, sef 'Data, monitro ac adrodd' ac 'Arloesi' ym mhen isaf y sgôr 3 (Anghytuno ei fod wedi bod yn rhan o'm profiad o'r RIF).
  - Dylanwad – er bod rhai clystyrau'n fwy dylanwadol mewn perthynas â gweithredu'r RIF, yn gyffredinol roedd gan bob clwstwr ddylanwad i ryw raddau, a lleolir y clwstwr isaf ei sgôr ('Arloesi') rhwng 2 (Fawr ddim dylanwad) a 3 (Rhywfaint o ddylanwad).
- Y datganiad mwyaf cydnabyddedig a mwyaf dylanwadol oedd 'Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid tymor hwy yn esgor ar risg i gynaliadwyedd prosiectau/gwasanaethau'r RIF'.

- Y datganiad lleiaf cydnabyddedig a lleiaf dylanwadol oedd ‘Mae cyfuno mentrau bach i greu prosiectau ambarél mwy wedi gwella strwythurau adrodd’.

**Cryfderau a chyfyngiadau**

3.10 Ein nod oedd recriwtio hyd at 100 o gyfranogwyr a oedd yn gysylltiedig â phrosiectau/rhaglenni a ariennir gan yr RIF ledled Cymru. Er bod y mwyafrif o ranbarthau Cymru wedi cael eu cynrychioli (ond nid pob un), ac er na chafwyd cynrychiolaeth genedlaethol, cafodd pob sefydliad ei gynrychioli – Y Trydydd Sector (n=16); y Sector Statudol (n=14), a oedd yn cynnwys Awdurdodau Lleol (n=9) ac Iechyd (n=5). Gwelwyd gwahaniaethau a thebygrwydd yn y sgoriau a gafodd clystyrau’r ddau grŵp hyn. Calonogol oedd gweld bod sefydliadau’r trydydd sector yn cytuno’n gyffredinol bod gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn rhan o’u profiad o’r RIF, a’i fod wedi dylanwadu ar weithredu’r RIF. Ymhellach, llwyddodd yr astudiaeth i recriwtio rhai a oedd yn gweithio ar lefel ranbarthol a rhai a oedd yn gweithio ar lefel prosiectau; y rhai a oedd yn gweithio ar lefel prosiectau oedd â’r gynrychiolaeth fwyaf (n=27). Tynnwyd sylw at ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach (yn cynnwys y gweithlu) yng Ngham Gweithredu blwyddyn dau y gwerthusiad cyffredinol.

3.11 Mae’r astudiaeth hon yn cyflwyno’r canfyddiadau a ddeilliodd o ddidoli a sgorio’r 51 datganiad, ac mae’n cyflwyno mewnwelediadau a darlun cliriach o’r profiadau mwyaf a lleiaf cydnabyddedig mewn perthynas â’r RIF, ynghyd â’r datganiadau mwyaf a lleiaf dylanwadol wrth weithredu’r RIF hyd yn hyn. Mae’r canfyddiadau’n cynnig cyfraniad defnyddiol mewn perthynas â gweithredu’r RIF a phennu hyd a lled y gydnabyddiaeth a’r dylanwad. Fodd bynnag, cyflwynir rhagor o fanylion yn Adroddiad Ansoddol Blwyddyn Dau (Bebb et al., 2025).

## Cyfeiriadau

Bebb, H., Bryer, N., Grover, T., Llewellyn, M. a Verity, F. (2025) Qualitative Interviews Report: Implementation. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Kane, M. a Rosas, S., (2017). Conversations about group concept mapping: Applications, examples, and enhancements. Thousand Oaks, CA: Cyhoeddiadau Sage.

Kane, M. a Trochim, W.M. (2007). Concept mapping for planning and evaluation. Thousand Oaks, CA: Cyhoeddiadau Sage.

Wallace, S. a Wallace C. (2024). Adroddiad Mapio Cysyniad Grŵp: Cysyniadu. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR 01/2025. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2025-01/gwerthusiad-or-gronfa-integreiddio-rhanbarthol-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol-adroddiad-mapio-cysyniad-grp.pdf

## Atodiad 1 – Rhestr lawn o’r datganiadau (n=51)

1. Mae cyfleoedd i ehangu oddi mewn i ranbarthau yn ddibynnol ar gyd-destun lleol addas
2. Mae cyfleoedd i ehangu oddi mewn i ranbarthau yn ddibynnol ar argaeledd adnoddau
3. Mae prosiectau/gwasanaethau’r RIF yn canolbwyntio ar eu hymatebion i flaenoriaethau lleol neu ranbarthol yn hytrach na’r Modelau Gofal
4. Mae prosiectau’r RIF yn cydweddu’n dda â’r Model Gofal yr adroddant iddo
5. Collwyd cyfleoedd i gydweithredu ac arloesi’n ddyfnach gyda’r trydydd sector
6. Mae integreiddio gyda’r sector gwerth cymdeithasol yn digwydd mewn modd anghyson
7. Caiff y sector gwerth cymdeithasol ei gydnabod yn anghyson
8. Ni chaiff cyfleoedd i fabwysiadu datblygiadau digidol neu dechnolegol eu gwireddu’n llwyr
9. Mae prosesau gwell o ran rhannu data wedi symleiddio prosesau adrodd
10. Mae prosesau gwell o ran rhannu data wedi gwella integreiddiad tîm y prosiect
11. Mae atebion digidol a thechnoleg arloesol wedi arwain at wasanaethau mwy effeithlon a hygyrch
12. Mae llywio trwy strwythurau llywodraethu cymhleth yn effeithio ar gyflawni prosiectau
13. Mae cynllunio strategol ar gyfer yr hirdymor yn dasg anodd wrth ymateb yn gyson i alwadau pwysig, byrdymor ar amser
14. Caiff heriau gweithredol eu dwysáu yn yr hinsawdd sydd ohoni, lle ceir pwysau mawr ar adnoddau
15. Mae prosiectau/gwasanaethau’r RIF wedi defnyddio dulliau arloesol i wneud rolau’n fwy atyniadol
16. Mae’r sicrwydd ariannol tymor hwy a roddir i swyddi trwy gyfrwng cynllun yr RIF wedi gwella sefydlogrwydd y gweithlu
17. Mae model cyflawni’r RIF wedi lleihau problemau’n ymwneud â recriwtio a chadw’r gweithlu
18. Mae gweithlu cryf, cadarn ac integredig yn hollbwysig o ran cyflawni’r RIF yn effeithiol
19. Erys seilos traddodiadol rhwng iechyd a gofal cymdeithasol
20. Mae’n cymryd llawer o amser i ymwreiddio newid ymddygiad ledled y system ac integreiddio gwasanaethau
21. Mae prosiectau/gwasanaethau’r RIF, sydd wedi ennill eu plwyf, yn parhau i gynyddu integreiddio
22. Mae’r RIF yn arwain at ddull sy’n canolbwyntio mwyfwy ar unigolion gogyfer cyflawni gweithgareddau atal ac ymyrryd yn gynharach
23. Mae’n werthfawr cael cydbwysedd o ran data meintiol a naratifau ansoddol mewn gofynion adrodd
24. Mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella effeithlonrwydd a lleihau’r baich gweinyddol

25. Mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella o ganlyniad i fwy o ymddiriedaeth a chraffu
26. Mae prosesau adrodd yr RIF wedi gwella o ganlyniad i ofynion symlach
27. Mae ansicrwydd ynglŷn â chyllid tymor hwy yn esgor ar risg i gynaliadwyedd prosiectau/gwasanaethau'r RIF
28. Mae'r seilwaith a'r adnoddau rhanbarthol wedi galluogi prosiectau i arloesi ac addasu i anghenion newidiol
29. Mae hyblygrwydd cyllid yr RIF wedi galluogi prosiectau i arloesi ac addasu i anghenion newidiol
30. Mae'n anodd mesur effaith benodol yr RIF pan fo'n ariannu dim ond rhan o'r tîm staff sy'n cyflawni gwasanaethau ehangach
31. Mae'r RIF wedi bod yn hollbwysig o ran cynyddu capasiti
32. Mae rôl y trydydd sector ym mhrosiectau/gwasanaethau'r RIF yn ddibynnol ar barhau i weithio mewn partneriaeth
33. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn mynd i'r afael â bylchau ym mhrosiectau/gwasanaethau'r RIF
34. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn cyfoethogi prosiectau/gwasanaethau'r RIF
35. Mae sefydliadau'r trydydd sector yn elfen hollbwysig ym mhrosiectau'r RIF
36. Mae cyfuno mentrau bach i greu prosiectau ambarél mwy wedi gwella strwythurau adrodd
37. Mae effeithiolrwydd gwaith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, byrddau iechyd a sefydliadau'r trydydd sector yn amrywio
38. Mae rheoli ar y cyd yn elfen hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF
39. Mae gweithio'n dda mewn partneriaeth yn elfen hollbwysig o brosiectau effeithiol yr RIF
40. Mae prosiectau'r RIF yn esblygu i weithredu mewn modd mwy rhanbarthol ac integredig
41. Mae prosiectau newydd/datblygol yr RIF yn defnyddio atebion arloesol
42. Mae prosiectau newydd/datblygol yr RIF wedi cael eu cyflwyno i fynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau
43. Ceir cyfleoedd i esgor i raddau mwy ar ddysgu traws-brosiect, fel y gellir rhannu mewnwelediadau cyflawni, llwyddiannau a heriau
44. Defnyddiwyd yr RIF yn unol â'r bwriad i ategu sbectrwm eang o wasanaethau
45. Mae Cymunedau Ymarfer yn elfen hollbwysig o rannu dysgu
46. Mae prosiectau'r RIF wedi addasu a theilwra'r ddarpariaeth er mwyn darparu ar gyfer anghenion ac amgylchiadau lleol
47. Mae prosiectau'r RIF wedi dysgu ar sail prosiectau tebyg eraill
48. Defnyddir adborth parhaus gan ddefnyddwyr gwasanaethau i fireinio a gwella arferion
49. Siapiwyd prosiectau'r RIF gan adborth parhaus gan ddefnyddwyr gwasanaethau i fireinio a gwella arferion
50. Mae prosiectau'r RIF wedi cael eu llywio gan ddata i fireinio a gwella arferion

51. Mae prosiectau'r RIF wedi cael eu llywio gan asesiad cadarn o anghenion i fireinio a gwella arferion

# Atodiad 2 – Ymatebion y cyfranogwyr i'r cwestiynau demograffig

**Tabl A2.1: Yr ardal ddaearyddol y maent yn gweithio ynddi yn bennaf**

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru | n=6 |
| Powys | n=1 |
| Gorllewin Cymru | n=5 |
| Gorllewin Morgannwg | n=11 |
| Cwm Taf Morgannwg | n=7 |
| Caerdydd a'r Fro | n=3 |
| **CYFANSWM** | **n=33** |

**Tabl A2.2: Math o sefydliad**

| | |
|---|---|
| Awdurdod Lleol | n=9 |
| Y Trydydd Sector | n=16 |
| Y GIG | n=5 |
| Partneriaeth Ranbarthol | n=1 |
| Arall | n=2 |
| **CYFANSWM** | **n=33** |

**Tabl A2.3: Lefel y cysylltiad â'r RIF**

| | |
|---|---|
| Ar lefel prosiect | n=27 |
| Ar lefel ranbarthol | n=6 |
| **CYFANSWM** | **n=33** |